# Undeb Cymru a'r Byd yn falch o gefnogi 'The Côr Of The Matter'

gan Aled Roberts, Melbourne

The côr of the matter

Nepell o Geelong, ar ail benwythnos o fis Mehefin, cynhelir yr Ŵyl Werin Geltaidd Genedlaethol. Penwythnos hir o gerddoriaeth Gwyddeleg ac Albanaidd, yng nghyd â dawnsio a gweithgareddau eraill. Miloedd yno - ychydig fel Eisteddfod!

Beth sydd ar goll? Dim un cyfraniad Cymraeg cyson! Dros yr 15 mlynedd diwethaf mae sawl perfformiad wedi bod gan un o'r 5 côr Cymreig o ardal Melbourne, daeth y grŵp gwerin Calan allan tua 5 mlynedd yn ôl ac yn 2022 trefnwyd noson Gymreig yng nghwmni'r delynores Siobhan Owen (hi'n hannu o Adelaide - a'i thad o Fangor) a'r grŵp gwerin Bush Gothic (grŵp gwerin o Melbourne ddaru berfformio yn y Tŷ Gwerin yn Eisteddfod Cenedlaethol Tregaron 2022).

Felly be wnawn ni ond ffurfio côr Cymreig arall! Er y tro yma côr cymysg fydd yn perfformio trefniadau ffres o ganeuon adnabyddus yn y Gymraeg, hefo offerynwr ac artist graffig ar y llwyfan. Enw'r côr yw "The Côr Of The Matter". Mae sawl trefniant gan ein Cyfarwyddwraig Cerddorol, Jenny Thomas, eisioes yn barod - "Myfanwy" oedd y cyntaf - a newydd apwyntio Daniel Griffiths o Gaerdydd fel Côrfeistr. Mae gwaith recriwtio aelodau ar fin cychwyn a tair ffynhonell arian wedi eu trefnu - yr Ŵyl ei hun, Eglwys Cymraeg Melbourne ac Undeb Cymru a'r Byd.

Mae ymarferion wedi dechrau ers canol Mawrth a rhown ddiweddariad yn y rhifyn nesaf. Yn y cyfamser, os ydych yn gwybod am rhywun yn Melbourne a fuasia'n hoffi canu yn y Gymraeg mewn côr, gofynnwch iddynt gysylltu â mi ar aled.roberts@almahurst.com neu ar fy ffôn symudol 0409 136005.

*The second weekend in June in Portarlington, Victoria, not far from Geelong runs the annual National Celtic Folk Festival. A great long weekend of Irish and Scottish music, dancing and other activities, enjoyed by thousands - a bit like an Eisteddfod!*

*What's missing? There's no consistent Welsh contribution! Over the last 15 years, we've had occasional performances by one of the 5 Welsh choirs from the Melbourne area, we had the Welsh folk group, Calan, out one year and two years ago a Welsh evening with harpist Siobhan Owen (she lives in Adelaide and her Dad's from Bangor) and Bush Gothic (a folk group who performed in Tŷ Gwerin at the National Eisteddfod in Tregaron 2022).*

*So, what do we do? We decide to form another Welsh choir! This time though, it's a performance choir - mixed - singing fresh arrangements of well-known Welsh songs, in Welsh, with a musician and a graphic artist on the stage at the same time. The choir's name and program title "The Côr Of The Matter".*

*A couple of arrangements are already completed by our Musical Director, Jenny Thomas - the first was "Myfanwy" - and a Choirmaster appointed - Daniel Griffiths from Cardiff. Recruitment is underway and three sources of funding are set up - the Festival itself, along with the Melbourne Welsh Church and Undeb Cymru a'r Byd have all come to the party.*

*Rehearsals started mid March and there'll be an update in the summer issue of Yr Enfys. In the meantime, if you know of anyone in Melbourne who would want to sing in Welsh in a choir, please have them contact me on aled.roberts@almahurst.com or on my mobile on 0409 136005.*



Jenny Thomas,
Cyfarwyddwraig Cerddorol.

CYSYLLTWCH Â NI! / GET IN TOUCH!

Beth am anfon llythyr neu erthygl ar gyfer y rhifyn nesaf?

Why not send a letter or an article for the next issue?

E-bostiwch: enfys@cymruarbyd.cymru / E-mail: enfys@walesinternational.cymru